Ysgol Y Bedol
Heol Foland
Garnant
Ammanford
Carmarthenshire
SA18 2GB

03/01/2025

Annwyl Gethin Richards

**Ymweliad Interim:** Rhagfyr 2024

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol y Bedol yn ddiweddar i ystyried sut mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd wrth fynd i'r afael â dwy flaenoriaeth o'r cynllun datblygu ysgol. Isod, ceir crynodeb o gynnydd yn erbyn y blaenoriaethau hynny.

Yn ystod yr ymweliad, cafodd y tîm gyfle i:

- Ymweld â dosbarthiadau
- Siarad â disgyblion
- Cyfarfod gydag athrawon, cynorthwywyr ac arweinwyr
- Craffu ar waith disgyblion
- Craffu ar ddogfennaeth

Mae arweinwyr a staff yn yr ysgol wedi cyd-weithio'n effeithiol gyda'i gilydd i wireddu amcanion y blaenoriaethau hyn, sy'n cael effaith gadarnhaol iawn ar ddarpariaeth a deilliannau disgyblion.

**Ffocws yr ymweliad**

**Gwella medrau darllen disgyblion ar draws yr ysgol**

- Mae arweinyddiaeth effeithiol a chadarn y pennaeth yn gosod cyfeiriad strategol clir er mwyn mynd i'r afael â'r flaenoriaeth yma. Mae arweinwyr yn creu diwylliant ac ethos cadarnhaol i hybu a chefnogi dysgu proffesiynol staff o ran datblygu medrau darllen y disgyblion. Mae staff yn cael cyfleoedd cyson i fynychu hyfforddiant ac maent yn rhannu syniadau ac arferion gorau gyda'i gilydd yn bwrpasol. Mae hyn yn cyfrannu'n gadarn at gysondeb yn arferion addysgu darllen.

- Mae arweinwyr wedi sefydlu diwylliant cadarn o hybu mwynhad a diddordeb y disgyblion mewn darllen. Maent wedi sicrhau mynediad cyson i'r disgyblion ymweld â'r llyfrgell leol ar safle'r ysgol ac mae'r disgyblion hynaf yn cefnogi'r disgyblion ieuengaf fel 'buddies darllen' yn llwyddiannus.
- Mae gan yr ysgol systemau manwl ac effeithiol er mwyn olrhain cynnydd darllen disgyblion dros amser. Mae gan athrawon ddealltwriaeth gadarn o fedrau cychwynnol y disgyblion drwy eu harsylwi yn y dosbarth meithrin. Maent yn defnyddio'r wybodaeth hon yn fedrus er mwyn addasu eu cynlluniau'n ôl y galw ac i gefnogi disgyblion sydd angen cefnogaeth ychwanegol yn amserol.
- Mae gan yr athrawon a'r cynorthwywyr adnabyddiaeth drylwyr iawn o allu ac anghenion y disgyblion. Maent yn cynllunio amrediad o weithgareddau bwriadus er mwyn annog datblygiad ym medrau darllen y disgyblion. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn. Mae'r disgyblion ieuengaf yn dechrau defnyddio ystod briodol o strategaethau ffoneg i ddarllen geiriau cyfarwydd ag anghyfarwydd, ac i ganfod ystyr testun. Erbyn Blwyddyn 2, maent yn defnyddio ystod dda o strategaethau yn effeithiol i ddarllen geiriau llai cyfarwydd. Ar frig yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn darllen yn glir a gyda mynegiant da yn y ddwy iaith.
- Mae staff wedi datblygu amgylcheddau dysgu ysgogol sy'n annog brwdfrydedd a mwynhad y disgyblion tuag at ddarllen. Mae ardaloedd darllen penodol y disgyblion ieuengaf a'r ardaloedd chware rôl yn meithrin eu creadigrwydd a datblygu eu medrau darllen sylfaenol, er enghraifft wrth ddarllen labelu ar furluniau a darllen bwydlen yng nghaffi 'Siôn y Chef'. Yn nosbarthiadau'r disgyblion hynaf, mae murluniau llenorion yn annog y disgyblion i fwynhau darllen amrediad o lyfrau a chael dealltwriaeth ddyfnach o brif lenorion Cymru.
- Mae athrawon yn fodelau iaith gadarn a thrwy gysondeb yn y ddarpariaeth mae disgyblion yn datblygu amrediad cynyddol o eirfa bynciol wrth drafod eu darllen yn hyderus. Drwy brofiadau bwriadus athrawon, mae disgyblion yn datblygu ystod gynyddol o uwch fedrau darllen yn effeithiol, gan gynnwys llithr ddarllen a thrafod agweddau penodol o'r testunau.
- Mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gymhwyso eu medrau darllen mewn gwahanol gyd-destunau ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, mae'r disgyblion ieuengaf yn darllen datganiadau wrth greu diagram canghennog a'r disgyblion hynaf yn darllen cyfarwyddiadau ar sut i greu potes hud yn fedrus. O ganlyniad, mae disgyblion yn gweld pwrpas i ddatblygu eu medrau darllen ac mae eu hagweddau at ddysgu yn gadarn.

**Cyflwyno cwricwlwm sy'n cynnig amrediad cynhwysfawr o brofiadau dysgu dilys i ddisgyblion**

- Mae arweinwyr, athrawon a chynorthwywyr yn cydweithio'n effeithiol i gynllunio a darparu cwricwlwm pwrpasol, ysgogol a chyffrous sy'n annog disgyblion i ymchwilio a darganfod drostynt eu hunain. Mae hyn seiliedig ar ddysgu drwy ymholiad sy'n cefnogi disgyblion i feithrin medrau meddwl a dealltwriaeth ddyfnach tra'n hybu eu medrau dysgu annibynnol. O ganlyniad, mae bron bob un o'r athrawon yn darparu ystod helaeth o brofiadau dysgu cyfoethog sy'n sbarduno a diwallu anghenion disgyblion yn effeithiol iawn.

- Mae bron bob un o'r athrawon yn annog disgyblion i gyfrannu'n werthfawr at eu dysgu eu hunain, gan gynnwys trafod eu syniadau ar ddechrau bob ymholiad tymhorol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol iawn ar agweddau disgyblion at eu dysgu, gyda'r rhan fwyaf yn frwdfrydig ac yn dangos gwir ddiddordeb yn eu gwaith.
- Rhoddir pwyslais cryf ar hanes, diwylliant a thraddodiadau'r ardal leol sy'n creu ymdeimlad o berthyn a balchder ymhlith y disgyblion. Maent yn gwneud defnydd effeithiol o ymwelwyr ac ymweliadau buddiol i gyfoethogi'r profiadau dysgu, er enghraifft trwy gydweithio gydag arlunydd lleol i greu gêm yn seiliedig ar yr ardal.
- Ar draws yr ysgol, mae athrawon a chynorthwywyr yn sicrhau cydbwysedd effeithiol rhwng addysgu uniongyrchol a chynnig cyfleoedd buddiol i ddisgyblion i ddefnyddio'u medrau dysgu annibynnol ac i ddysgu trwy ddarganfod.
- Nodwedd gref o'r ddarpariaeth yw'r ffordd mae athrawon yn cynllunio'n fedrus ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion trwy brofiadau dysgu a chwarae dilys. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol iawn ar gyflawniad disgyblion a'u hagweddau at ddysgu. Yn ogystal, maent yn cyfuno'u medrau'n llwyddiannus wrth ddatrys problemau go iawn neu wrth gyflwyno'u gwaith ar eu hymholiadau, er enghraifft trwy gyfansoddi rap a chreu cyflwyniad fideo i gyd-fynd gyda'i gwaith ar Feddygon Myddfai.
- Mae bron bob un o'r athrawon a chynorthwywyr yn defnyddio egwyddorion dysgu sylfaen yn llwyddiannus i ddarparu amrywiaeth eang iawn o brofiadau dysgu a chwarae ymarferol cyffrous i'r disgyblion ieuengaf. Maent yn gwneud defnydd cyson o brofiadau dilys ac amgylchedd dysgu a chwarae pwrpasol i annog y disgyblion i fentro a dysgu trwy ymchwilio.
- Mae athrawon yn cynllunio profiadau buddiol i ddisgyblion ddysgu mwy am fyd gwaith a'u helpu i ddatblygu mentrau entrepreneuraidd yn effeithiol, er enghraifft trwy greu a marchnata nwyddau fel bomiau baddon i'w gwerthu adeg y Nadolig. Mae'r profiadau dysgu buddiol hyn yn cynnig cyfleoedd effeithiol i ddisgyblion gymhwyso'u medrau llythrennedd, rhifedd a digidol mewn cyd-destun go iawn.
- Rhoddir pwyslais cryf ar ddefnyddio'r ardal allanol i atgyfnerthu'r dysgu ac i gynnig profiadau gwerthfawr i ddisgyblion ddarganfod mwy am fyd natur. Yn ogystal, mae athrawon yn adnabod pwysigrwydd cynnig cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion weithio a chwarae yn yr awyr agored i gefnogi'u lles. Er enghraifft, mae'r disgyblion ieuengaf yn gofalu am ieir yr ysgol tra bod bob disgybl yn plannu a gofalu am blanhigion yn yr ardd a'r tŷ gwydr ar wahanol adegau o'r flwyddyn.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli safle yn rhoi unrhyw achos i bryderu.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygu craidd diweddaraf yr ysgol a gwybodaeth bellach am broses a phwrpas ymweliadau interim ar ein gwefan: http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6692388

Yn gywir

LMiles.

**Liz Miles**

Cyfarwyddwr Cynorthwyol